

Cyfrifiad 2021 - Yr Iaith Gymraeg

Siaradwyr Cymraeg

Cymru

Mae data diweddaraf y Cyfrifiad ar gyfer 2021 yn nodi bod tua 538,300 o bobl (3+ oed) yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, mae hyn yn cyfateb i 17.8% o'r boblogaeth. Mae hyn yn ostyngiad o tua 23,700 o bobl neu 1.2 pwynt canran ers Cyfrifiad 2011. ¹

Yr unig awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg yw Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Sir Gâr

Mae data Cyfrifiad diweddaraf 2021 yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn gartref i 72,838 o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cyfateb i 39.9% o holl boblogaeth y sir. ²

Mae'r ffigwr yma wedi gostwng 5,210 ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, sydd gyfystyr â gostyngiad pwynt canran o 4.0. Dyma'r gostyngiad mwyaf o ran pwynt canran o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn 2001 a 2011, Sir Gaerfyrddin oedd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru, gyda 84,196 a 78,048 o siaradwyr Cymraeg yn ôl eu trefn. Mae'r ffigurau newydd hyn yn golygu mai'r sir bellach sydd â'r ail nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg o holl awdurdodau lleol Cymru. Sir Gaerfyrddin yw'r pedwerydd uchaf o ran canran y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg o hyd.

Grŵp oedran

Fe welodd pob awdurdod lleol ostyngiad yng nghanran y plant rhwng 3 a 15 oed gafodd eu hadrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021.

Ar lefel genedlaethol credir bod y gostyngiad yn nifer a chanran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei yrru'n bennaf gan gwmp ymhlith plant a phobl ifanc a ddywedodd eu bod yn medru'r Gymraeg.

Yn Sir Gaerfyrddin mae niferoedd y rhai rhwng 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng 510 o bobl, sy'n cyfateb i ostyngiad pwynt canran o 2.6.

Gwelwyd gostyngiadau hefyd o fewn y categorïau oedran 16-64 a 65+, ond ar lefelau mwy sylweddol na'r grŵp oedran iau. Felly, mae'r dirywiad yn y rhai dros 65 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn cyfateb i ostyngiad pwynt canran o 8.7.

Sgiliau iaith Gymraeg

Dywedodd 74,355 o bobl sy'n byw yn y sir nad oes ganddynt unrhyw sgiliau yn y Gymraeg yn ystod Cyfrifiad 2011. Mae'r lefel yma wedi cynyddu dros y deng mlynedd diwethaf i 85,287 neu 4.8 pwynt canran.

Mae nifer y bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn y sir wedi gostwng 1.9 pwynt canran neu 1,828 o bobl. Mae hyn yn ostyngiad dipyn is na'r ffigurau ar gyfer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn unig.

¹ Pwyntiau canran yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng dau ganran. Yn yr achos hwn rydym yn cyfeirio at y gwahaniaethau rhwng canrannau sy'n nodi'r cyfran o'r boblogaeth sy'n yn gallu siarad Cymraeg

² Rhai 3+ oed